CYFRES C2

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch,dd,ff,ng,ll,ph,rh,th

DARLLENWCH
Luc 19: 1-10

ADNOD ALLWEDDOL
Luc 19: 10

Astudiaeth 1 Dywediadau Iesu – Am Bechod

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Mathew 7: 24-27 Ioan 5:24 Ioan 8: 31-37

Yn aml, ceir penawdau mewn papurau newydd yn sôn am bethau pwysig y mae Prif Weinidogion neu Arlywyddion wedi'u dweud. Yn fuan iawn, bydd pawb wedi anghofio eu geiriau nhw ond mae geiriau Iesu Grist yn dal i gael eu darllen a'u cofio bron ddwy fil o flynyddoedd ar ôl iddo'u dweud.

C **Ysgrifennwch benawdau ar y papurau newydd hyn wedi'u seilio ar y cyfeiriadau isod o'r Beibl.**

Marc 1:22

Marc 12: 37

Ioan 7:46

3

GRID GEIRIAU

Defnyddiwch y Darlleniad o'r Beibl i'ch helpu i lenwi'r Grid Geiriau.

1. Beth oedd gwaith Sacheus? _ _ _ _ _ _ trethi.
2. Roedd Sacheus yn methu gweld Iesu am fod gormod o _ _ _ _ _.
3. Ym mha dref oedden nhw?
4. Dywedodd Iesu wrth Sacheus "Mae'n rhaid i mi aros yn dy dŷ di _ _ __ _ _".
5. Roedd y bobl yn dweud bod Sacheus yn ddyn _ _ __ _ _ _ _ _ _.
6. Dywedodd Iesu "Daeth Mab y Dyn i _ _ _ _ _ _ ac i achub y colledig". (Darllenwch yr Adnod Allweddol).



4

Doedd Sacheus ddim yn ddyn poblogaidd. Doedd neb yn ei drystio ac fe allwn ni ddeall pam.

C **Pa adnod sy'n awgrymu wrthym ei fod yn dwyn arian?** **Adnod** | 1

Byddai'n cael ei gyfrif yn FRADWR am ei fod yn casglu trethi ar ran y Rhufeiniaid. Roedd y Rhufeiniaid wedi goresgyn y wlad a nawr roedden nhw'n gwneud bywyd yn anodd i'r Iddewon. Ond, er nad oedd y bobl leol eisiau dim i'w wneud ag ef, roedd Iesu'n barod i siarad ag ef.

C **Rhowch ✓ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau isod yn GYWIR neu'n ANGHYWIR:-**

Roedd Iesu'n gwybod lle'r oedd Sacheus. .....
Doedd Iesu ddim eisiau siarad â Sacheus. .....
Roedd Iesu'n gwybod pwy oedd Sacheus. .....
Roedd Iesu'n rhy brysur i stopio. .....
Roedd Iesu'n gwybod pa fath o ddyn oedd Sacheus. ..... | 5

Gan fod Iesu wedi mynd i dŷ Sacheus, roedd y bobl leol yn ei feirniadu.

C **Esboniwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN pam y gwnaeth bobl y dref hynny.** | 2

C **Tynnwch linellau o lun Sacheus i'r ddwy frawddeg sy'n disgrifio orau sut y gwnaeth Sacheus ymateb i Iesu.**

Gwrthododd ddod o ben y goeden.
Dywedodd y byddai'n cywiro'r pethau drwg roedd wedi'u gwneud.
Dywedodd y byddai'n dal i ymddwyn yr un fath.
Fe wnaeth ef edifarhau am ei bechod.
Dywedodd wrth Iesu am fynd i ffwrdd.

| 2

Atebodd Iesu ei feirniaid trwy ddweud "Heddiw, daeth iachawdwriaeth i'r tŷ hwn." Mae hwn yn un o ddywediadau mawr Iesu. Beth oedd hynny'n ei olygu i Sacheus? Mae 'cael eich achub' yn brofiad sy'n cynnwys bywyd y Cristion i gyd – o'r funud yr ydych yn ymddiried yn Iesu fel eich Gwaredwr, i'r amser rydych yn mynd i'r Nefoedd i fod gydag Ef.

C **Llanwch y bylchau.**

Darllenwch 1 Timotheus 1: 15. Pan ddown ni'n Gristnogion, cawn ein hachub rhag y GOSB am ein _ _ __ _ _, gan fod Iesu wedi dod i achub pechaduriaid.

Mae Hebreaid 7: 25 yn dweud wrthym, gan fod yr Arglwydd Iesu'n _ _ _, mae'n rhoi'r GALLU i ni drechu pechod. Mae hyn yn golygu ein bod yn cael ein hachub bob dydd o'n bywydau.

Yn olaf, mae Hebreaid 9: 28 yn dweud wrthym y bydd yr Arglwydd Iesu'n ymddangos am yr _ _ _ waith rhyw ddiwrnod. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd ein hiachawdwriaeth yn gyflawn achos byddwn wedi'n hachub rhag PRESENOLDEB pechod. Byddwn yn y Nefoedd gyda'r Arglwydd Iesu am byth. | 3

Mae'r Arglwydd Iesu'n dal i geisio ac i achub y rhai sydd ar goll. Ydi E wedi dod o hyd i chi a maddau i chi eto?

Enw _____

DARLLENWCH
Ioan 9: 1-41

ADNOD
ALLWEDDOL
Ioan 9: 5

Astudiaeth 2 Dywediadau Iesu – Am Weld

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Ioan 8: 12 Ioan 12: 44-46 Actau 26: 12-18 1 Pedr 2:9

Ydych chi wedi ceisio cerdded o gwmpas y tŷ yn y tywyllwch yn ystod toriad trydan? Byddai'n rhaid i chi deimlo'ch ffordd o gwmpas y dodrefn ac efallai'ch bod wedi baglu dros rywbeth. Cyn hir, byddech wedi sylweddoli nad oeddech yn gwybod yn iawn lle'r oeddech yn mynd a bod hyn yn beryglus. Mae pobl ddall a rhai sydd â nam ar eu golwg yn wynebu peryglon fel hyn trwy'r amser. Mae hyn yn wir hefyd am bobl nad ydyn nhw'n nabod yr Arglwydd Iesu. Dydyn nhw ddim yn gallu gweld lle maen nhw'n mynd yn eu bywydau a dydyn nhw ddim yn deall y peryglon sydd o'u blaen. Mae gan Iesu lawer o ddywediadau sy'n esbonio hyn.

C **Edrychwch ar yr adnodau isod o Efengyl Ioan a llanwch y bylchau.**



Roedd dynion yn _ _ _ _ y tywyllwch yn hytrach na'r goleuni, am fod eu gweithredoedd yn ddrwg.



Os nad yw pobl yn dilyn Iesu, maen nhw'n rhodio (cerdded) mewn _ _ _ _ _ _ _ _.



Nid yw pobl sy'n credu yn Iesu yn _ _ _ _ yn y tywyllwch.

Mae'r wyrth sydd i'w gweld yn y Darlleniad o'r Beibl yn ein helpu i ddeall y newid sy'n digwydd yn ein bywydau pan fyddwn ni'n cwrdd â'r Arglwydd Iesu.

CHWILAIR

Llanwch y bylchau. Mae'r geiriau yn y CHWILAIR. Maen nhw'n rhedeg yn ôl, ymlaen, i fyny, i lawr ac ar letraws. Rhowch gylch o'u cwmpas yn y Chwilair.

1. Roedd y dyn wedi bod yn ddall ers iddo gael ei _ _ _.
2. Roedd y disgyblion yn meddwl ei fod yn ddall oherwydd ei _ _ _ _ _.
3. Dywedodd Iesu fod y _ _ _ yn dod pan na allai neb weithio.
4. Dywedodd Iesu mai ef oedd _ _ _ _ _ _ _ y byd.
5. Poerodd Iesu ar y llawr a gwneud _ _ _ _ o'r poeryn.
6. Defnyddiodd Iesu'r clai i iro _ _ _ _ _ _ _ y dyn.
7. Dywedodd Iesu wrth y dyn am fynd i bwll _ _ _ _ _ _.
8. Roedd rhaid i'r dyn _ _ _ _ _ _ _ yno.

O	LL	Y	G	A	I	D
S	I	D	O	CH	E	B
A	S	I	L	O	A	M
A	D	O	E	N	I	O
I	M	E	U	W	A	P
Y	S	O	N	E	L	O
A	E	N	I	S	C	R

Roedd y dyn yn gallu gweld yn awr ond roedd hynny'n achosi problemau eraill iddo! Mae hynny'n digwydd yn aml pan fydd rhywun yn dod yn Gristion. Dydi'n holl broblemau ni ddim yn diflannu!

C **Darllenwch y brawddegau isod ac ysgrifennu pa un/rai o'r bobl hyn a'u dywedodd nhw.**

Rhieni Cymdogion Y dyn dall Y Phariseaid Yr Arglwydd Iesu

"Onid hwn yw'r dyn fyddai'n eistedd i gardota?" .....

"Myfi yw ef." .....

"Nid yw'r dyn hwn o Dduw. Nid yw'n cadw'r Saboth." .....

"Fe wyddom ei fod wedi'i eni'n ddall. Ond ni wyddom pwy a agorodd ei lygaid." .....

4

Doedd y dyn dall ddim yn deall llawer am Iesu ond roedd yn dysgu'n gyflym.

C **Llanwch y bylchau isod.**

Darllenwch adnod 11. Dywedodd mai _ _ _ oedd Iesu.
Darllenwch adnod 17. Dywedodd bod Iesu'n _ _ _ __ _ _ _.
Darllenwch adnod 38. Galwodd Iesu'n _ _ _ _ _ _ __.

3

Taflodd y Phariseaid y dyn oedd wedi'i wella allan o'r synagog. Ond daeth Iesu o hyd iddo.

C **Rhowch y geiriau isod yn y drefn y cawsant eu dweud trwy roi'r rhifau 1 – 4 arnynt.**

Yr wyf yn credu, Arglwydd.

A wyt ti'n credu ym Mab y Dyn?

Yr wyt wedi'i weld ef. Yr un sy'n siarad â thi. Hwnnw yw ef."

Pwy yw ef, Syr?

4

Yn ogystal ag agor ei lygaid fel y gallai weld yn gorfforol, roedd Iesu wedi agor ei ddeall fel ei fod yn gwybod pwy oedd yr Iesu a sut i gredu ynddo.

C **Ysgrifennwch eiriau Ioan 8: 12 sy'n debyg i'r Adnod Allweddol. Rhowch gylch o gwmpas y geiriau sy'n dweud beth y mae'n rhaid i ni ei wneud i gael "goleuni'r bywyd".**

2

Unwaith eto, roedd Iesu wedi honni pethau mawr. Profodd fod ganddo'r hawl i honni hynny trwy'r hyn a wnaeth i'r dyn a gafodd ei eni'n ddall.

Enw _____

DARLLENWCH
Ioan 10: 1-33

ADNOD
ALLWEDDOL
Ioan 10: 9

Astudiaeth 3 Dywediadau Iesu – Am Fugeiliaid

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Salm 23 Eseia 40: 10-11 Luc 15: 3-7 Hebreaid 13: 20

Rydyn ni wedi defnyddio dau ddigwyddiad ym mywyd Iesu i'n helpu ni i ddeall ei ddywediadau pwysig. Ond yn y Darlleniad hwn o'r Beibl, mae Iesu'n defnyddio dameg neu stori i esbonio ei neges.



CROESAIR

Darllenwch Adnodau 2 – 11

Cliwiau i Lawr

2. Ad-drefnwch y llythrennau i ddangos pa fath o ddyn nad yw'n mynd trwy'r drws i gorlan y defaid ond sy'n dringo dros y wal. r e w b i y l s i
4. Mae'r _ _ _ _ _ _ yn nabod llais y bugail go iawn.
5. Mae'r bugail yn nabod y defaid wrth eu _ _ _ _ _ _.

Cliwiau ar Draws

1. Dywedodd Iesu "_ _ _ _ yw'r bugail da."
3. Mae Iesu wedi dod er mwyn i bobl gael _ _ _ _ _ cyflawn.
6. Mae'r defaid yn _ _ _ _ _ y bugail.
7. Mae'r bugail _ _ yn fodlon marw dros y defaid.
8. Nid yw'r defaid yn adnabod ___ _ _ _ pobl ddieithr.



4

Os byddwn ni'n ceisio mynd ein ffordd ein hunain, byddwn ni'n crwydro oddi wrth Dduw.

C **Yn ôl Eseia 53: 6, rydyn ni i gyd wedi crwydro fel _ _ _ _ _ _, pob un yn troi i'w ffordd ei hun.**

1

Mae angen yr Arglwydd Iesu arnom i ddangos y ffordd i fynd yn ein bywydau ac i'n helpu pan fydd bywyd yn anodd.

C **Edrychwch yn ofalus ar y Darlleniad o'r Beibl a rhowch ✓ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau isod yn GYWIR neu'n ANGHYWIR.**

Dywedodd Iesu ei fod wedi dod er mwyn i bobl gael bywyd. .....
Dywedodd Iesu na fyddai'n rhoi ei einioes dros y defaid. .....
Dywedodd Iesu fod y defaid yn ei nabod. .....
Dywedodd Iesu nad oedd yn nabod y Tad. .....

4

Pan ddywedodd Iesu mai Ef oedd y Bugail Da, roedd yn golygu mai ef oedd y Bugail go iawn ac na fyddai byth yn ein siomi nac yn ein hesgeuluso.

C **Defnyddiwch y geiriau isod i lenwi'r bylchau sy'n disgrifio bugeiliaid sy'n cael eu cyflogi.**

ofal chwâl berchen blaidd ffoi

Y mae'r gwas cyflog, nad yw'n fugail nac yn _ _ _ __ _ _ y defaid, yn gweld y _ _ _ _ _ __ yn dod ac yn gadael y defaid ac yn __ _ _: ac y mae'r blaidd yn eu hysglyfio ac yn eu gyrru ar __ _ _ _.Y mae'n ffoi am mai gwas cyflog yw, ac am nad oes _ _ _ _ arno am y defaid.

3

Yr Arglwydd Iesu yw'r Bugail Da achos mae'n gofalu am ei ddefaid i gyd ac nid yw byth yn eu gadael. Gwaetha'r modd, doedd pawb ddim yn derbyn geiriau Iesu.

C **Ysgrifennwch rifau'r adnodau sy'n dweud y pethau isod am Iesu yn y blychau.**

Y mae cythraul ynddo, y mae'n wallgof.	**Adnod**
A yw cythraul yn gallu agor llygaid y deillion.	**Adnod**
Os mai ti yw'r Meseia, dywed wrthym yn blaen.	**Adnod**
Rwyt ti .. a thithau'n ddyn yn dy wneud dy hun yn Dduw	**Adnod**

4

Roedd Iesu'n dweud mai dau fath o bobl sydd yna. (Adnodau 26 a 27)

C **Ysgrifennwch y geiriau "Roedden nhw" neu "Doedden nhw ddim" ym mhob brawddeg.**

_____ yn ddefaid iddo achos doedden nhw ddim yn credu.

_____ yn ddefaid iddo achos roedden nhw'n gwrando ar ei lais.

_____ yn ddefaid iddo achos roedd ganddyn nhw fywyd tragwyddol.

_____ yn ddefaid iddo achos nid ânt byth i ddistryw.

4

Pan fyddwn wedi ymddiried yn yr Arglwydd Iesu, rydym yn eiddo iddo am byth. Dydi e byth yn gollwng gafael arnom. Byddwn yn Gristnogion am byth. Gallwn ddiolch i Dduw ei fod yn ein cadw yn ei ofal am byth os byddwn wedi ymddiried yn y Bugail Da a fu farw trosom.

Allwch chi ddweud o waelod eich calon, "Yr Arglwydd yw fy Mugail"?

Enw _____

DARLLENWCH
Ioan 3: 1-16

ADNOD
ALLWEDDOL
Ioan 3: 16

Astudiaeth 4 Dywediadau Iesu – am Achub

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Numeri 21: 4-9 Ioan 1: 10-13 Ioan 14:6

Weithiau roedd Iesu'n siarad mewn damhegion neu'n dweud pethau syml, weithiau wrth dyrfaoedd ac weithiau wrth unigolion. Roedd yn rhybuddio pobl ac yn eu cysuro.

1

C **Roedd ei holl eiriau yn dod oddi wrth ___ . (Ioan 3:34)**

Daeth dyn i weld Iesu..

Beth oedd ei enw?

_ _ _ _ _ _ _ _ _ _

Beth oedd ei swydd?

_ _

Pryd ddaeth e?

_ _ _ _ _ _

Beth wnaeth e alw Iesu?

_ _ _ _ _

4

Efallai'ch bod yn meddwl eich bod yn gwybod llawer am Dduw. Roedd y dyn hwn yn sicr yn meddwl hynny. Ond roedd rhaid i Iesu ddechrau o'r dechrau wrth ei ddysgu.

C **Beth sy'n gorfod digwydd i chi?**

Y mae'n rhaid eich _____. (Adnod 7)

2

C **Beth os nad yw hyn yn digwydd?**

Ni chewch _____. (Adnod 3)

Ydych chi'n deall beth y mae hyn yn ei olygu? Mae Iesu'n dweud na allwn fynd i'r Nefoedd os na chawn fywyd newydd wrtho ef.

C **Llanwch y bylchau.**

bechu deulu ysbrydol naturiol Dduw geni o'r newydd

Pan gawn ein geni fel babanod, mae gennym fywyd _ _ _ _ _ _ _ _,

ond dim bywyd _ _ _ _ _ _ _. Mae'n hawdd i ni _ _ _ _ a chrwydro ymhell oddi wrth ___ _ _.

Pan ddown yn Gristnogion, cawn ein _ _ _ _ _'_ _ _ _ _ __. Rydym yn cael bywyd

ysbrydol o'r newydd gan ein bod yn aelodau o _ _ _ _ _ Duw.

3

Trwy'r Ysbryd Glân y cawn y bywyd ysbrydol hwn. Mae'n anodd esbonio gwaith yr Ysbryd Glân achos na allwn ei weld yn digwydd.

C **Dywedodd Iesu wrth Nicodemus ei fod fel y _ _ _ _ _. (Adnod 8).**

Dydyn ni ddim yn gallu ei weld, ond gallwn weld ei effeithiau. Cafodd Nicodemus drafferth fawr i ddeall hyn, ac y mae llawer o bobl yn cael trafferth i'w ddeall heddiw!

C **Rhowch ✓ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau isod yn gywir neu'n anghywir.**

Trwy'r Ysbryd Glân y cawn ein geni o'r newydd. .....

Cawn ein geni o'r newydd trwy geisio byw yn dda. .....

Dim ond pobl ddrwg sy'n gorfod cael eu geni o'r newydd. .....

Mae'n rhaid i ni gael ein geni o'r newydd er mwyn mynd i'r Nefoedd. .....

4

Daeth Iesu â'i sgwrs gyda Nicodemus i ben trwy esbonio rhagor am neges fawr yr Efengyl. Edrychwch ar Numeri 21: 4-9. Defnyddiodd Iesu'r stori hon i'n helpu i ddeall pam yr oedd yn rhaid iddo farw.

C **Llanwch y bylchau.**

Codwyd neidr ar bolyn.

Digwyddodd hyn yn yr anialwch.

Roedd rhaid i'r bobl gafodd eu brathu edrych er mwyn byw.

Yna cafodd y bobl fyw.



Codwyd _____ ar groes.

Digwyddodd hyn yn Jerwsalem.

Mae'n rhaid i ni _____ yn Iesu i gael byw.

Yna byddwn ni'n cael _

3

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

2

Dyma un o frawddegau pwysicaf y Beibl.
Ydych chi'n ei chredu?
A ydych yn siŵr y byddwch yn cael bywyd tragwyddol?

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH % 01766 819120